

Iaith Cynganedd: 'iaith ryfeddol yw hon'

Mererid Hopwood

Decharu'r Daith. Cam Un: Y Cwestiwn

Yn Ystafell y Cyngor y digwyddodd e. Hen ystafell yr hen arogl ar lawr gwaelod yr Hen Goleg yn Aberystwyth. Roedd y criw wedi bod wrthi drwy'r dydd. Criw o feirdd, rhai o India Fawr a rhai o Gymru Fach, yn cyfnewid cerddi fesul llinell, fesul syniad. Fy ngorchwyl i oedd ymuno â nhw yn sesiwn olaf y dydd. Tu fas, roedd y gwyll wedi galw'r tonnau at ei gilydd i daro'n aflafar yn erbyn bariau'r prom. Tu fewn, roedd trydan wedi gwasgaru golau melynllwyd, a'm tasg i oedd esbonio elfennau'r gynghanedd i'r ymwelwyr dysgedig.

Yn wahanol i'r arfer, doeddwn i ddim yn bryderus y tro hwn. Onid oeddwn, flynyddoedd ynghynt, wedi mwynhau noson agos atoch ymhlith cymuned Punjabi mewn 'Mehfil' anffurfiol yng Nghaerdydd? Onid oedd y beirdd wedi ymgasglu mewn cylch i ddarllen cerddi i'w gilydd, gan ymateb gyda gair tebyg i 'mwna', a swniai'n agos i'r ebychiad talyrnaidd a ddaw os yw cerdd yn taro deuddeg (neu 'ddeg', a bod yn fanwl). Ac onid oeddwn wedi teimlo'n gwbl gartrefol? Roeddwn felly'n dawel fy meddwl bod mwynhau miwsig mewn cerdd yn siŋ r o fod yn rhan o draddodiad y cwmni, ac y byddai'r beirdd-o-bant hyn yn gwerthfawrogi rhyfeddod y canu caeth ac yn dotio at ddisgleirdeb y goreuon. Roedd gen i berlau gan Dic a Gerallt yn barod i'w cyflwyno iddynt, a byddai'r llinellau'n siŋ r o'u llorio, ac yna, eiliad datgelu cymhlethdod y cyseinedd a phatrymau'r cyfateb yn eu gadael yn gegrwrth ac wrth eu bodd ...

Ond nid felly y bu. Roedd yn eu plith hynafgwr a oedd wedi hen droi ei gefn ar ei draddodiad ei hunan ac yn ymhyfrydu bellach yn y modd yr oedd wedi mabwysiadu patrymau rhydd, ôl-fodernaidd y diwylliant eingl-americaidd.

A fi oedd yn gegrwth pan ofynnodd e dwtsh yn ddirmygus ar ddiwedd fy nghyflwyniad: ‘Why?’

Tawelwch.

‘Why?’ gofynnais yn ôl yn betrus, er mwyn cadarnhau, mae’n debyg, fy mod wedi deall y cwestiwn yn iawn.

‘Yes,’ atebodd yn go swrth, ‘why make yourselves slaves to such rules? Why bother?’

Tawelwch.

Roeddwn i’n siomedig, a hen deimlad diflas o fethiant yn gymysg â dolur yn gafael. Methiant am fy mod innau’n amlwg wedi gwneud cawlach o’r esbonio. Dolur am ei fod yntau wedi sarhau peth mor annwyl ac arbennig.

‘L’esprit d’escalier’ yw ymadrodd y Ffrancod am y profiad ges i ar y ffordd adre, sef y profiad o ganfod geiriau’r ochr draw i’r drws caeedig wedi i chi gael eich taro gan fudandod yn wyneb sen. Ohewrydd do, yn y car tua Penparcau (... neu falle Aberaeron ...), daeth ateb i’w sarhad. A rhywbeth fel hyn y bydden i wedi gallu ei ddweud: Bydden i wedi gallu holi a oedd e’n ysytried rheolau gramadeg ei iaith fel rhai caethiwus? Ac wedyn bydden i wedi mynd ymlaen i esbonio nad oedd rheolau Cerdd Dafod damaid yn fwy cymhleth na rheolau iaith. Ac yna, gan godi stêm, bydden i wedi egluro ymhellach, yn union fel gydag iaith, o feistroli’r rheolau’n iawn – eu mewnoli nes cael eich twyllo mai chi sy’n eu rheoli nhw – nad yw deddfau’r hen grefft yn ein clymu o gwbl, ac y gellid dweud popeth mewn Cerdd Dafod-eg fel mewn Cymra-eg, neu Saesn-eg neu unrhyw ‘-eg’ arall.

A bron i fi golli’r troad yn Synod Inn.

Flynyddoedd yn ddiweddarach, wrth gnoi cil dros gais golygyddion yr ysgrif hon, dyma ail-ymweld â’r ‘meddilie’ hynny, neu’n benodol yr honiad sydd

wrth eu gwraidd, sef mai iaith yw Cerdd Dafod. Tybed a oes modd cyfiawnhau hynny? Ydy llunio cynganedd wir fel siarad iaith?

Wrth siarad ac wrth gynganeddu, defnyddiwn sain i geisio cyfathrebu synnwyr ac, er ein bod yn rhoi mwy o bwyslais ar y briodas rhwng sain a synnwyr wrth gynganeddu nag wrth siarad, yn y bôn mae'r ddwy weithred yn rhannu'r un ddwy elfen hanfodol. Dyna un darn o dystiolaeth, felly, o blaid yr honiad. Mae'n werth nodi hefyd mai 'tafod' yw ystyr y gair am 'iaith' yn aml. Cymerwch Sbaeneg, Ffrangeg, Eidaleg a Saesneg, lle defnyddir amrywiad ar y gair Lladin 'lingua' ('tafod') i gyfleu 'iaith'. A 'tafod' hefyd yw 'iaith' yn Swedeg, Armeneg, Perseg, Groeg, Perseg ac yn yr iaith Wrddw, i enwi ond rhai. Yn Saesneg, defnyddir y gair 'tongue' yn ogystal â 'language' i ddynodi 'iaith', sy'n cymharu â'r Gymraeg yng nghyd-destun ieithoedd bro: 'tafodiaith'. Tystiolaeth bellach!

'Ai iaith yw Cerdd Dafod?' Yr ateb, ymddengys yw 'Ie.'

Twt! Rydym wedi methu rhywbeth pwysig: geiriau *Cymraeg* a ddefnyddiwn i lunio cynganedd, a does bosib nad oes rhaid i iaith gael ei geiriau ei hunan ac, yn fwy na hynny, eiriau sy'n wahanol i eiriau ieithoedd eraill cyn i unrhyw beth gael ei ystyried yn iaith ... ?

Wel na, nid yn hollol, nid yn ôl nifer o athronwyr na chwaith gerdd Myrddin ap Dafydd, a'n hatgoffodd ers meitin nad 'Dim Ond Geiriau Ydy Iaith'.

Dyma'r camgymeriad sylfaenol a wna'r meddwl unieithog yn rhy aml, sef tueddu gweld iaith fel set o eiriau. Mae'r camsyniad hwn yn ei arwain i gredu mai mater o gael dwy set o labeli ar gyfer yr un set o wrthrychau yw medru siarad dwy iaith, ac mae hyn yn ei dro'n arwain at ddiffyg dealltwriaeth o'r hyn yw cyfoeth medru mwy nag un iaith. Digon hawdd amlygu'r gwall wrth ddangos sut y mae modd labelu'r un gwrthrych gyda mwy nag un gair o fewn yr un iaith. Ystyriwch 'gadair'. Gallaf ei labelu'n 'chair' a 'seat' heb symud cam o'r Saesneg. Mae'n haws i'r siaradwyr dwyieithog osgoi'r

camresymegu hyn, oherwydd, o bensynied, gallant weld bod newid iaith yn gofyn am fwy na chyfnewid gair am air arall. Yn hytrach, fel y mae trê'n yn newid trac, rhaid i'r meddwl amlieithog gynnu'r swits cywir er mwyn gallu rhoi cerbyd ei feddyliau ar drywydd cystrawen ystyrlon yr iaith arall.

A bydd rhaid dychwelyd at y busnes 'delwedd' cyn cau pen y mwdwl. Ond am y tro, cyn gofyn 'ai iaith yw Cerdd-Dafod?', ymddengys fod angen gofyn yn gyntaf: 'beth yw iaith?'

Cam Dau. Iaith: tu fas neu tu fewn?

Os, ar ei symlaf, y gellid diffinio iaith fel system gyfathrebu, gwelwn fod diffinio manylach wedi achosi penbleth i feddylwyr mawr yr oesoedd. Llyfr diweddar sy'n olrhain hyn yw gwaith Charles Taylor *The Language Animal* (2016). Ynddo, rhennir athronwyr iaith yn ddwy garfan, ar y naill law ddilynwyr Hobbes, Locke a Condillac (yr HLCs) ac, ar y llall, ddilynwyr Hamann, Herder a Humboldt (yr HHHs).

Ym marn Taylor, mae'r HLCs yn gweld iaith fel rhywbeth sy'n debyg i ffrâm a osodir o gwmpas holl briodoleddau'r ddynolryw, lle mae'r priodoleddau hyn yn bod yn annibynnol ar iaith, lle mae'r iaith, os mynnwch chi, y tu allan, a'r priodoleddau hyn y tu mewn. Esbonia bod iaith i'r HHHs, fodd bynnag, yn rhywbeth cwbl wahanol. Iddyn nhw, mae iaith ar y tu mewn, yn briodoledd ynddi hi ei hunan, yn bod ochr yn ochr â holl briodoleddau'r ddynolryw ac, yn fwy na hynny, yn newid y priodoleddau hyn ac yn gwneud agweddau newydd arnynt yn bosib.

I griw'r HLCs, mae iaith yn rhoi inni reolaeth dros broses sydd eisoes yn bod, wrth iddi ganiatáu inni gategoreiddio ac enwi pethau a syniadau, ond mae iaith i'r HHHs yn broses ynddi hi ei hunan, un sy'n agor dimensiwn arall o fewn yr hyn y gallwn ni ei feddwl neu ei ddirnad neu ei ystyried (Taylor 2016: 27). ('Ystyried' efallai yw'r ferf fwyaf cymwys, am fod y gair

‘ystyr’ yn cuddio ynddi, ac am ei bod yn cyfateb, felly, i syniad gwreiddiol Herder am ‘Besonnenheit’, o’r ferf ‘besinnen’, lle ceir yn y canol y gair ‘Sinn’, sef y ‘synnwyr’, y ‘sens’, yr ‘ystyr’, Taylor 2016: 51.)

Mewn geiriau eraill, i’r HLCs, mae iaith yn caniatáu i ni *ddynodi* pethau. Ond i’r HHHs, mae iaith yn caniatáu i ni *gael gafael yn ystyr* pethau. Iddyn nhw, mae’r ‘cefndir’ (fel y’i gelwir gan Taylor) yn rhan annatod o iaith, ond dim ond cyfres o labeli arwynebol ydyw i’r HLC’s.

Delwedd enwog gan Humboldt a all ein helpu i ddeall y mater hwn o ‘gefndir’ yw’r un lle mae’n gweld iaith fel gwe (Taylor 2016: 21). Hynny yw, allwn ni ond deall gair yn iawn wrth estyn mas o’r gair, y tu hwnt iddo, i’r we o eiriau sydd o’i gwmpas. Delwedd arall ganddo yw’r un lle mae’n disgrifio’r weithred o yngan gair fel cyffwrdd nodyn ar offeryn trawfwrdd, lle mae’r nodyn yn dirgrynu ac yn atseinio drwy’r offeryn cyfan. Mae Taylor ar ochr yr HHHs, sy’n yn rhoi pwyslais ar rôl ‘cefndir’ iaith, a hyd y gwelaf i, mae’r cefndir hwn yn rhywbeth go debyg i ‘gyd-destun’ neu hyd yn oed ‘ddiwylliant’.

O ran ein cwestiwn ni, gwelwn fod modd cymathu Cerdd Dafod â’r ddiffiniad hwn o iaith yn weddol uniongyrchol. Oherwydd, onid rhan annatod o gynganeddu yw cael gafael mewn ystyr? Ac wrth wneud hynny, onid oes rhaid gwranddo ar y geiriau’n atseinio’n erbyn ei gilydd, nid yn unig o ran eu sain ond o ran eu cefndir hefyd? P’un ai’n ymwybodol ai peidio, mae’n amhosib i gynganeddwyr lled-brofiadol ddweud ‘fan hyn’ heb glywed yn rhywle yn ogof y cof y geiriau ‘fin nos’, neu ddweud ‘ein lluniaeth’, dyweder, heb glywed atsain ‘a’n llawenydd’. Fel geiriau iaith, yn ôl damcaniaeth yr HHHs, mae gan eiriau Cerdd Dafod gefndiroedd dyfnion.

Cam Tri: Ffiniau Iaith

Ac aros gyda'r HHHs, aiff y ddadl yn ei blaen i esbonio effaith y cefndir hwn, gan ddweud bod iaith, yn y dirgrynu neu'r atseinio sy'n profi bod ganddi gefndir, yn creu *dimensiwn* iddi hi ei hunan. Wrth i iaith weithio, nid o'r tu fas tu fewn ond o'r tu fewn tu fas, mae'n creu 'gofod' lle gall ei siaradwyr brosesu profiadau a dirnad ystyron yn ogystal â rhoi mynegiant iddynt. Mae syniad yr ieithegydd Denis Bouchard yn gymorth fan hyn. Mae e'n gweld iaith fel un o gyneddfau 'off-line' y ddynolryw (Bouchard 2013: pennod 4). Yn hyn o beth, mae'n debyg i gynneddf y cof a'r dychymyg, lle caniateir inni fodoli mewn dimensiwn, mewn man, sydd y tu hwnt i'r nawr (a'r nawr mewn munud ☺).

Ac iaith yn ddimensiwn 'off-line', o fewn yr hwn yr ydym yn estyn am ystyr, ceir cyfatebiaeth bellach â Cherdd Dafod, fel y g□ yr pawb sydd wedi ceisio cynganeddu mewn man cyhoeddus, ac sydd – heb os – wedi cael y profiad o wynebu rhywun yn dod i'w cyfarch ac, yn yr eiliad honno, yn sylweddoli eu bod wedi bod am ysbaid (hir, fer, pwy a □ yr?) mewn rhyw ddimensiwn arall, rhyw 'zone' o ystyron sydd mor ddwfn y tu mewn iddynt nes ei fod yn ymddangos yn lle pell i ffwrdd.

Esbonia Taylor (2016: e.e. pennod 6, 177-187) wedyn nad yw ffiniau'r dimensiwn ieithyddol yn sefydlog ac, yn fwy na hynny, fod gwthio'r ffiniau'n rhan o'i hanfod. Byddwn yn eu gwthio bob tro y cawn ein herio i fynegi rhywbeth newydd. Mae'r her honno'n esgor ar ddyfeisgarwch sy'n troi'n JCB-ymestyn-tiriogaeth-iaith.

Rydym i gyd yn gyfarwydd ag un agwedd ar ymbalfalu ar ffiniau iaith, sef y profiad a gawn wrth fynd ati i ddysgu iaith newydd. Gwrandewch ar blant bach yn arbrofi'n ddyfeisgar gyda'r ychydig eiriau sydd ganddynt. Wrth ddysgu iaith newydd fel oedolion, rydym yn sylweddoli nad yr iaith ei hunan sy'n gyfyng ond, yn hytrach, ein gafael ni arni. Rydym oddi mewn iddi'n

methu cael at y rhannau hynny sy'n mynd i ganiatáu inni ddatgan yr hyn yr hofffen ni ei gyfathrebu. Efallai ein bod ni eisoes yn gwybod ac yn adnabod y llwybrau sy'n arwain o'r tu fewn tu fas yn ein mam-iaith ond, a ninnau yng nghanol yr iaith anghyfarwydd, rydym ar goll. Mae dyfeisgarwch y gwthio ffiniau ar waith ond, yn y sefyllfa hon, mae'r dyfeisgarwch hwnnw'n seiliedig ar ymdrech i gael menthyg geiriau ac ymadroddion sydd eisoes yn bod – i gael at y llwybrau sydd eisoes yn bod. Darllen map rhywun arall yw'r her dan yr amgylchiadau hynny.

Ond ceir agwedd arall ar ddyfeisgarwch y gwthio ffiniau ieithyddol, sef y profiad a gawn wrth chwilio am fynegiant gwell, mwy cymwys, yn yr iaith yr ydym eisoes yn ei siarad yn rhugl. Nid mater o fenthyg ymadroddion sy'n bod eisoes yw hyn, ond o greu rhai o'r newydd; nid mater o ddilyn llwybrau sy'n bod eisoes, ond o dorri rhai newydd; nid mater o ddarllen map ond o lunio map newydd.

Mae'r math hwn o ddyfeisgarwch yn sicr yn gwthio ffiniau iaith ond, y tro hwn, nid iaith y gwthwyr yn unig sy'n cael ei hymestyn ond, yn hytrach, yr iaith ei hunan. Mae'r sawl sy'n ymgymryd â'r math hwn o chwalo ffiniau'n ymestyn tiriogaeth yr iaith yn ei chyfanrwydd, a hynny er budd holl siaradwyr yr iaith honno.

Tybed a ellid cymhwyso'r elfennau hyn i Gerdd Dafod? Oes rhywbeth fan hyn sy'n canu cloch ym mhrofiad y cynganeddwyr? Rwy'n mentro bod. Onid yw'r broses o geisio'r llwybrau sy'n bod eisoes yn rhan anochel o'r profiad cychwynnol o ddysgu'r grefft, lle mae rhywun yn gwthio ffiniau'r mynegiant personol? A mentraf ei bod hi'n deg dweud hefyd fod y broses, o'r cychwyn cyntaf, yn gwthio ffiniau mynegiant yr iaith yn gyffredinol yn ogystal â'r personol, oherwydd yn fuan iawn (os anaml!), caiff y cynganeddwyr cychwynnol flas ar dorri llwybrau newydd ac ar droedio'r ffyrdd treuledig yn ogystal. Mae cwrdd â'r hen drawiadau a chwrdd â'r trawiadau gwreiddiol yn gallu digwydd yn gydamserol.

Mae a wnelo hyn rywbeth â'r berthynas rhwng barddoni a chynganeddu, a chyn mynd i'r afafel â'r berthynas honno, rhaid oedi'n gyntaf i ystyried y berthynas rhwng barddoni ac iaith.

Cam 4: Iaith, Barddoniaeth a Cherdd Dafod

I Christopher Klein, mae tebygrwydd rhwng y profiad o ddysgu iaith (boed yn faban yn dysgu iaith gyntaf neu'n unrhyw un sy'n dysgu ail neu drydedd iaith) a'r profiad o ddysgu barddoni. A'r hyn sy'n ddiddorol i ni yw'r modd y mae'n yn gosod y tebygrwydd hwnnw reit ar y ffiniau: ffiniau mynegiant. Yn ei erthygl *Poetry as a Foreign Language* (1998), dywed mai'r hyn sy'n gyffredin rhwng dysgwyr iaith a dysgwyr barddoni yw eu bod i gyd yn brentisiaid crefft 'creu a chyfathrebu ystyron'. Wrth ddysgu'r ddwy grefft, maen nhw'n gwthio ymylon eu medrusrwydd er mwyn darganfod beth sy'n bosib iddynt ei fynegi. Fodd bynnag, yr hyn sy'n hanfodol wahanol rhwng y ddau grŵp, meddai, yw na fydd y bardd fyth yn graddio o gyflwr y prentis.

Digon teg. Ond nid felly'r cynganeddwr. Mae'r llwybr o brentisiaeth i feistrolaeth wedi ei hen fesur i'r Cerdd Dafodwyr. Os yw'r broses o feistroliaeth iaith wedi ei mynegi ar gontinwrm megis CEFR (The Common European Framework of Reference for Languages) o A1 i C2, lle mae A1 yn nodi'r dechreuwyr prin eu geiriau ac C2 yn nodi'r siaradwyr cwbl rugl a chroyw, mae'r camau o'r Disgybl Ysbas bob cam i'r Pencerdd yn gwneud rhywbeth digon tebyg. Ac yn y cyfateb twt hwn, ceir mwy o dystiolaeth, felly, mai iaith yw cynganedd!

Ond mae darn arall o dystiolaeth ymhlyg yn hyn ...

Ar y naill law, os yw Klein yn gywir i ddweud nad yw'r bardd fyth yn graddio o gyflwr y prentis ac, ar y llaw arall, os gellir honni bod y prentis-gynganeddwr yn gallu cyrraedd penceirddiaeth (fel y mae modd i'r prentis-

siaradwr-iaith gyrraedd rhuglder), yna, yr awgrym fan hyn hefyd yw nad yw cynghanedd o anghenraid yn farddoniaeth.

Yna, ystyriwn hyn: er bod pob barddoniaeth yn fynegiant ieithyddol, nid yw pob mynegiant ieithyddol yn farddoniaeth. O ychwanegu ‘caeth’ at ‘farddoniaeth’ yn y gosodiad, gellid trwco ‘ieithyddol’ am ‘gynganeddol’: *er bod pob barddoniaeth gaeth yn fynegiant cynganeddol, nid yw pob mynegiant cynganeddol yn farddoniaeth*. Mae ‘lwmp yw Lot a’i lampau lu’ yn fynegiant cynganeddol, ond go brin y gwelai’r Meuryn caredicaf rithyn o farddoniaeth ynddo. Ac o gymhwyso rhesymeg fathemategol at y gosodiadau, onid yw hyn yn ei dro felly’n awgrymu bod ‘ieithyddol’ a ‘cynganeddol’ yn hafal? Mwy o dystiolaeth!

Os yw’r paragraff uchod yn un dadleuol, go brin ei bod yn ddadleuol dweud bod y beirdd, fel carfan o ddefnyddwyr iaith, gyda’r prysuraf a’r taeraf o ran eu hymdrech i roi mynegiant i bob profiad – hyd yn oed (neu’n enwedig) y profiadau hynny sy’n anodd eu mynegi. Dyma’r ysfa sy’n golygu eu bod byth a hefyd ar y ffiniau, yn chwilio’r dyfeisgarwch er mwyn datgan profiadau, a thrwy hynny’n ehangu tiriogaeth iaith. Dyna pam yr honnodd Paul Valéry (Hytier, 1957: 611) fod barddoniaeth yn ‘iaith o fewn iaith’, ac mai priod waith y bardd yw ei gysegru a’i ymroi ei hun i’r gwaith o’i diffinio a’i llunio: ‘Le poète se consacre et se consume à définir et à construire un langage dans le langage’.

Fe gofiwch imi sôn y byddai’n rhaid dychwelyd at y busnes ‘delwedd’. Ac aros gyda Valéry (1905: 1061), gwelwn ei fod yn cynnwys yn arfogaeth y chwalu ffiniau hwn y chwarae gyda seiniau a synnwyr ... a delwedd: ‘Ainsi la poésie est avant tout un jeu fonctionnel des appareils phoniques et verbaux et aussi une sorte de jeu fonctionnel de la faculté représentative ou descriptive — possible à cause de la liberté des images par les signes’.

‘Liberté’! RHYDDID! Dyma’r honiad: mae delwedd yn cynnig rhyddid. Y rhyddid a ddaw drwy chwalu’r ffiniau. Mae ffiniau iaith, y ffiniau oedd yn caethiwo ac yn atal mynegiant i’r profiad, yn cael eu chwalu gan bosibiliadau barddoniaeth. Mae’r ysfa a’r angen sy’n gyrru’r beirdd i chwilio am fynegiant yn eu gwthio heibio’r ffiniau a mas i’r ehangder mawr! Ac onid dyma un o’r profiadau mwyaf gwefreiddiol sy’n dod i ran ymarferwyr Cerdd Dafod?

Dyma brofiad yr hen wireb: ‘chwilio am air a chael mwy’. Y fantais fawr sydd gan y beirdd cynganeddol yw bod y broses o wrando mor astud ar sain gair yn prysuro’r siwrnai at ddelwedd wreiddiol. Mae’n eu harwain at gyplysu geiriau nad ydynt fel arfer yn dod at ei gilydd, ac mae hynny, bron o raid, yn esgor ar ddelweddau newydd sydd, yn eu tro, yn hwyluso’r dasg o ennill modfedd (milltiroedd, yn achos y goreuon) ar ymylon y diriogaeth ieithyddol. Ein rhyddhau o gaethiwed iaith a wna’r gynghanedd, felly, oherwydd ei bod yn caniatáu inni ergydio ffiniau iaith, a hynny â holl rym traddodiad yr oesoedd y tu ôl inni. (‘Slaves’ wir!)

Dimensiwn sy’n tyfu’n dragwyddol yw Cerdd Dafod. Deall hynny yw’r allwedd i ryddid, y deall sy’n creu ‘adenydd o’r cadwyni’. Methu deall hynny oedd problem rhywun fel Gerard Manley Hopkins, fel yr amlygodd Bobi Jones. (Nid ‘dimensiwn’ yw’r gair a ddefnyddia Bobi Jones, ond ‘byd’; eto i gyd, credaf eu bod yn syniadau cyfystyr yma.) A chyfeirio at Manley Hopkins a’r gynghanedd, meddai: ‘Bodlonodd ef ar ei chael yn “effaith” achlysurol’, heb ddeall ‘mai byd oedd’ (Jones 2005: 37). Nid effaith nac addurn yw cynghanedd, dim mwy na geiriau ydyw iaith.

Mae gosodiad nesaf Bobi Jones – ‘Mae’n ymddangos weithiau yn fyd go anghyraeddadwy i genhedloedd eraill’ – yn cynnig pont i ni at adran olaf yr ysgrif hon, sef mater Cerdd Dafod yng nghyd-destun ei throsglwyddo i ddiwylliannau eraill; hynny yw, iaith Cerdd Dafod a chyfieithu. Ond cyn croesi i’r adran olaf, a ninnau wedi cyrraedd gwaith Bobi Jones (neu R.M. Jones, fel y geilw ei hunan yn y cyd-destunau hyn), byddai’n syniad oedi

eiliad yn ei gwmni. Wedi'r cyfan, ganddo ef y benthycwyd teitl yr ysgrif. Dim rhyfedd, felly, fod modd cael ganddo dystiolaeth bellach o blaid ein honiad mai iaith yw cynghanedd – a honno'n 'iaith ryfeddol', at hynny (Jones 2005: 2).

Cam 5. Cam bach i'r ochr: Tafod a Mynegiant

Gwn fod ysgrif arall yn y gyfrol hon sy'n mynd i'r afael â gwaith swmpus R.M. Jones, *Meddwl y Gynghanedd*, felly does dim bwriad gen i fynd i fanylion fan hyn. Dim ond nodi bod yr un awdur, mewn gwaith arall llawn mor swmpus, *Dysgu Cyfansawdd* – a gyhoeddwyd ddwy flynedd cyn *Meddwl y Gynghanedd*, ac sy'n ymwneud ag addysgeg ail iaith – yn defnyddio'r un theorïau yn sail i'w ddadleuon.

Yn *Dysgu Cyfansawdd* (Jones 2003: 31), dan ddylanwad yr ieithegydd a'r ffilolegydd o Ffrancwr, Gustave Guillame (1883–1960), ceir ymaflyd â'r ddamcaniaeth fod dwy wedd sylfaenol ar iaith, sef y 'Tafod' a'r 'Mynegiant', a bod y ddwy wedd hynny'n gwbl wahanol i'w gilydd, ac eto'n gwbl gysylltiedig. Mae'n werth dyfynnu'r esboniad yn llawn:

Ar y naill ochr ceid yn yr ymennydd ei hun yr hyn a elwir (yn drosiadol) yn 'Dafod', sef y mecanwaith strwythurol sy'n ddadansoddiad trefnus o brofiad. Dyma'r potensial lle nad oes brawddegau o gwbl (yn rhyfedd iawn) ond sy'n medru cynhyrchu brawddegau yn ôl yr angen. Mecanwaith esgorol yw hwn. A 'Mynegiant' wedyn yw'r enw a rown ar y brawddegau hynny a geid o'i herwydd; sef y cynnyrch terfynol sy'n dilyn Tafod. Ni fedr yr un o'r ddwy wedd hyn fyw'n ieithyddol heb y llall.

Amlwg yw bod yn rhaid meistroli'r Tafod, sef y cnewyllyn bach gorfodol, cymharol sefydlog o strwythurau trefnus a gweithredol o'r golwg ar gyfer llunio Mynegiant. Mae'r un mor amlwg fod angen

adeiladu adnoddau geirfaol, ymadroddol, a chymalog amrywiol yn y golwg, fel y gall dyfeisiau cryno Tafod gyfarfod mewn brawddegau ag amllder o sefyllfaoedd achlysurol Mynegiant. Cronfa fechan eithriadol o bwerus yw Tafod.

Geiriau posib eraill i ddisgrifio'r ddwy wedd yw 'Gramadeg' a 'Geiriadur', 'Strwythur' a 'Ffwythiant', 'Patrwm' a 'Sefyllfa' (Jones 2003: 25). Dewiswyd 'Tafod' a 'Mynegiant'. Gan mai'r hyn y canolbwyntir arno yn *Dysgu Cyfansawdd* yw gwella addysgeg iaith, y brif neges yw profi mai ffolineb yw cynllunio gwersi iaith heb eu seilio ar ddysgu'r ddwy wedd hyn. Does dim pwrpas dysgu ymadroddion sy'n perthyn i sefyllfa heb hefyd ddysgu gramadeg, a 'vice versa'.

Yn ôl at berthynas Jones â gwaith Guillame, a gwelwn ei fod yn cytuno â'r Ffrancwr o ran ei bortread o iaith fel 'cyfundrefn o gyfundrefnau', ac ymhelaetha ar hyn, gan agor â'r frawddeg: 'Cyfundrefn o gyfundrefnau yw pob iaith, credwch neu beidio'. Yr hyn sy'n drawiadol i ni yw mai dyma'n *union* y modd y disgrifia'r gynghanedd (Jones 2005: 507). Ac er nad wyf i gant y cant yn siŋ r fy mod i'n cytuno â'r rhesymwaith a gyflwynir yng ngweddill yr adran honno, mae'n anodd anghydweld â'r disgrifiad o'r meddwl yn teithio drwy gyfundrefn o gyfundrefnau wrth chwilio am y mynegiant cynganeddol. Mentraf symleiddio drwy esbonio: yng nghydestun iaith arferol, os y 'Tafod' yw'r gramadeg a'r 'Mynegiant' yw'r dweud, yna, yng nghydestun iaith Cerdd Dafod, y 'Tafod' yw'r rheolau a'r 'Mynegiant' yw'r farddoniaeth. Ac rwy'n hoffi gweld cysylltiad wedyn rhwng y modd y mae Bobi Jones (2005: 27) yn nodi nad aeth beirdd ati i *lunio* deddfau Cerdd Dafod ond yn hytrach i'w *datgelu*, a'r modd y mae gramadegwyr iaith wedi gweithredu. Hynny yw, drwy wrando ar siaradwyr yn trin iaith y datgelir y patrymau sydd ar waith, ac yn sgil y broses honno y mynegir y 'rheolau'.

Cam 6: Cyfieithu

A dyma ddynesu at ben ein taith, a chyrraedd y man lle mae angen ystyried problem cyfieithu cynghanedd. Mae peth wmbredd o bontifficeiddio wedi bod ynghylch perthynas barddoniaeth â chyfieithu, ac mae diffiniad enwog Robert Frost o'r hyn yw barddoniaeth yn gondemniad cyn cychwyn: 'it [poetry] is that which gets lost out of both prose and verse in translation'. Wrth reswm, mae'n bosib cyfieithu barddoniaeth, ond prin y byddai'r cyfieithwyr mwyaf llwyddiannus yn gwadu nad yw'n dasg anodd ac yn un sy'n dibynnu'n drwm ar gyfaddawd. Mae'r ferf ar gyfer y weithred hon mewn nifer o ieithoedd yn golygu'n llythrennol 'cario o un lan i lan arall' (sy'n cyfateb i 'drosi', efallai, ond nid 'cyfieithu'). Ac ni waeth pa mor gul yw'r darn dŵr rhwng y glannau, mae bron yn amhosib peidio â gollwng rhyw fymryn bach o'r cargo ar y daith.

Wedyn, ar ben heriau arferol cyfieithu cerddi rhydd, mae cyfieithu cerddi caeth yn gosod rhai ychwanegol. Un rheswm am yr anhawster hwn yw'r modd y dibynna barddoniaeth gaeth gymaint ar berthynas gerddorol y geiriau â'i gilydd (hynny yw, ar y gynghanedd). Ond os ydyn ni'n derbyn bod Cerdd Dafod yn iaith, cawn reswm arall, oherwydd nid yw neb yn ceisio trosi iaith gyfan – dim ond darnau ohoni, talpiau weithiau, ond nid yr iaith i gyd. Hyd yn oed pe cyfieithid holl gorpws llenyddol iaith, ni chyfieithid yr holl iaith. Erys y tu hwnt i afael y cyfieithydd deithi meddwl yr iaith a'i chyddestun fel holl bosibiliadau newydd, tragwyddol ei mynegiant. A dyma pam fod cyfieithu Cerdd Dafod yn amhosib. Efallai'n wir fod modd cyfieithu ambell linell, ambell englyn cyfan hyd yn oed – ond fel gydag iaith arferol, erys y gyfundrefn yn ei chyfanrwydd yn anghyfieithiadwy.

Ai rhywbeth i alaru drosto yw'r diffyg hwn? Na. Rhywbeth i'w ddathlu. Wedi'r cyfan, nid gweithred niwtral yw cyfieithu, fel yr esbonia Young (2003: 140) yn ei lyfr ar ôl-wladychiaeth. Os yw'n ymddangos fel gweithred gyfartal ac fel mater braf o gyfathrebu rhyngddiwylliannol (oherwydd mae pob iaith

yn perthyn i ddiwylliant, ac mae trosi rhwng ieithoedd, felly, yn gyfnewid diwylliannol), buan y gwelir bod pob math o rymoedd ar waith. Ymhob achos, mae rhywbeth neu rywun yn cael ei symud (ei drosi), a thrwy hynny, o raid, yn cael ei newid o fod yn oddrych i fod yn wrthrych. Mae'r trosi yn *digwydd i'r* iaith; nid yw'r iaith yn ei throsi ei hunan. Ac fel gyda chymdeithas, a hyd yn oed genedl, mae modd gorfodi hierarchiaeth ar iaith: yr iaith wreiddiol a'r un y trosir y gwreiddiol iddi.

Eto i gyd, nid yw iaith yn gwbl oddefol. Ar yr adegau hynny pan fo ymadrodd yn creu anhawster mawr i'r cyfieithydd, mae fel pe bai'r iaith yn gweithredol-wrthod ganiatáu i'w hunan gael ei throsi. Ar adegau felly, mae'r ymwrthod hwn yn ennill y frwydr yn erbyn cyfeddiant, ac mae'r methiant yn troi'n llwyddiant. Yng ngeiriau Young (2003: 141–2):

Where the indigenous culture is being opened up for appropriation by the conquering culture, any act of translation thus involving an act of treachery, the necessary, traditionally lamented failure of translation becomes a positive force of resisitance, resisting the intruder.

Gan fod Cerdd Dafod yn iaith na ellir ei chyfieithu, felly, ni waeth faint o nodweddion diwylliant arall sy'n cael eu trosi i Gymru ac, yn wir, i'r iaith Gymraeg, tra pery'r gynghanedd, ni bydd copio'r holl nodweddion newydd ynghyd yn gallu dileu'n llwyr y peth hwnnw sy'n gynhenid unigryw amdani.

Cam 7: Diwedd y Daith

Wedi cyrraedd pen ein taith, gellir gweld bod y gynghanedd yn iaith, gan ei bod hi'n cyfathrebu ystyr drwy sain. Gwelir hefyd ei bod hi'n iaith am ei bod hi'n creu dimensiwn sy'n fyd mewnol oddi mewn i'r hwn y cawn afael ar yr ystyr. Ni welir ynddi set unigryw o eiriau ond, yn y modd y plethodd ar hyd y canrifoedd we o ystyron i'r geiriau a ddefnyddir ganddi, mae gan ei geiriau

gefndiroedd a chynodiadau unigryw oddi fewn i'w byd. Ac fel gydag iaith, gwelir ei bod hi'n caniatáu i'w siaradwyr mwyaf rhugl chwalu ffiniau ei thiriogiaeth wrth iddynt ei defnyddio'n ddyfeisgar. Gwelir hefyd nad oes terfyn ar bosibilirwydd y chwalu hwn. At hynny oll, gan na ellir mo'i throsi'n llwyr i iaith arall, gwelir bod iaith Cerdd Dafod yn cynnig ffordd uniongyrchol o sicrhau nad oes modd coloneiddio'n llwyr siaradwyr y Gymraeg, boed yn gynganeddwyr ai peidio. Yn hynny o beth, mae'n iaith gwbl anorchfygol.

O edrych ar yr olygfa ryfeddol hon, anodd peidio â theimlo dyletswydd a dyhead i rannu Cerdd Dafod â chymaint o bobl â phosib. Wrth nodi'r modd y mae gwyddoniadur Princeton yn disgrifio'r gynghanedd – 'the most sophisticated system of sound-patterning practised in any poetry in the world' – mae Bobi Jones (2005: 30) yn dweud:

Gellid meddwl y buasai cyflwyniad dwys iddi yn gwbl gynhenid orfodol a chanolog yng nghwricwlwm addysg y wlad hon; nid yn unig ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd Gymraeg, ond ym mhob ysgol uwchradd Eingl-Gymreig yn ein gwlad hefyd. Ond ni chawsom odid ddim byd ar y raddfa yna.

Ac mae sawl un ohonom cyn heddiw wedi gofyn pam fod plantos Cymru'n cael dysgu am ffurf Siapaneg yr 'haiku', ond heb un llefelaeth o beth yw 'englyn'. Ai dim ond sinig fyddai'n cofio geiriau dilornus D.J. Williams (1929: 20), pan ddisgrifiodd Deddf Addysg 1870 (a oedd yn gwadu gwersi Cymraeg i'r Cymry) fel 'Peiriant Mwrddro Cenedl'?

A ninnau ar drothwy cwricwlwm newydd sydd wedi ei wreiddio'n lleol, un y mae ei ganghennau'n ymestyn yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, mae'n bryd mynd ati i gynnig arweiniad i athrawon Cymru – sydd eu hunain yn aml wedi colli'r cyfle i ddod yn gyfarwydd â'r gynghanedd – i ffeindio ffyrdd

dychmygus i ddenu disgyblion at iaith ryfeddol, at bosibiliadau tragwyddol
ac at ryddid canu caeth Cerdd Dafod.

Llyfryddiaeth

Bouchard, D. (2013), *The Nature and Origin of Language* (Oxford)

Brooks, C. and Warren R.P. (1961), *Conversations on the Craft of Poetry with Robert Frost, John Crowe Ransom, Robert Lowell, Theodore Roethke* (trawsysgrif o recordiad) (USA)

Hytier, J. (1957) *Paul Valéry Œuvres I* [Bibliothèque de la Pléiade](#) (Ffrainc)

Hytier, J. (1960) *Paul Valéry Œuvres II* *Bibliothèque de la Pléiade* (Ffrainc)

Jones, R.M. (2003), *Dysgu Cyfansawdd* (Abersytwyth)

Jones, R.M. (2005), *Meddwl y Gynghanedd* (Llandybïe)

Taylor, C. (2016), *The Language Animal* (UDA)

Williams, D.J. (1929) *A.E. a Chymru* (Aberystwyth)

Young, R.J.C. (2003) *Postcolonialism: a very short introduction* (Oxford)